OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1015 (Cy. 57)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *30 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 17 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) ac adrannau 20(2) a 23(1), (3) a (5) o Ddeddf Iechyd 1999(**2**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**3**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN I

### CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "adolygiad gwasanaeth gwladol" ("*national service review*") yw adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn o dan adran 20(1)(d) o'r Ddeddf;

ystyr "adolygiad lleol" ("*local review*") yw adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn o dan adran 20(1)(b) o'r Ddeddf neu reoliad 2(c) neu (d) o'r Rheoliadau Swyddogaethau;

ystyr "ymchwiliad"("*investigation*") yw ymchwiliad gan y Comisiwn yn unol ag adran 20(1)(c) o'r Ddeddf neu reoliad 2(3) o'r Rheoliadau Swyddogaethau;

(**1**) 1977 p.49; amnewidiwyd adran 17 gan adran 12 o Ddeddf 1999; mae adran 126(4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw bŵer i wneud gorchmynion neu reoliadau a roddir gan Ddeddf 1999 (gweler adran 62(4) o Ddeddf 1999) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19), adran 65(2) a Deddf 1999, Atodlen 4, paragraff 37(6).

(**2**) 1999 p.8; gweler adrannau 20(7) a 23(6) ar gyfer y diffiniadau o "prescribed".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

ystyr “Awdurdod Iechyd perthnasol” (“*relevant Health Authority*”) yw'r Awdurdod Iechyd y mae darparydd gwasanaethau yn darparu gwasanaethau yn ei ardal;

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw'r cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth;

ystyr “y Comisiwn Archwilio” (“*the Audit Commission*”) yw'r Comisiwn Archwilio dros Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr;

ystyr “y Comisiwn” (“*the Commission*”) yw'r Comisiwn Gwella Iechyd a sefydlwyd gan adran 19 o'r Ddeddf;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “darparydd gwasanaethau” (“*service provider*”) yw person, heblaw corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd —

(a) yn darparu gwasanaethau Rhan II; neu

(b) yn darparu gwasanaethau yn unol â chynllun peilot o dan Ddeddf 1997(**4**);

ystyr “Deddf 1977” (“*the 1977 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr “Deddf 1997” (“*the 1997 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd (Gofal Sylfaenol) 1997(**5**);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd 1999;

mae i “gwasanaethau meddygol personol” (“*personal medical services*”) yr ystyr a roddir i “personal medical services” yn adran 1(8) o Ddeddf 1977;

ystyr “gwasanaethau Rhan II”(“*Part II services*”) yw gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau fferyllol o dan Ran II o Ddeddf 1977;

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd” (“*health care professional*”) yw person sydd wedi'i gofrestru fel aelod o broffesiwn gofal iechyd;

ystyr “proffesiwn gofal iechyd”(“*health care profession*”) yw proffesiwn y mae adran 60(2) o'r Ddeddf yn gymwys iddo;

ystyr “y Rheoliadau Swyddogaethau” (“*the Functions Regulations*”) yw Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) 2000(**6**);

ystyr “trefniadau llywodraethu clinigol” (“*clinical governance arrangements*”) yw trefniadau gan gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu ddarparydd gwasanaethau ar gyfer monitro a gwella ansawdd y gofal iechyd(**7**) y mae ganddynt gyfrifoldeb drosto;

ystyr “ymchwiliad gwasanaeth iechyd” (“*health service inquiry*”) yw ymchwiliad a gynhelir neu a sefydlir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, i unrhyw fater ynglŷn â rheoli, darparu, ac ansawdd y gofal iechyd y mae cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu ddarparwyr gwasanaethau yn gyfrifol amdanynt;

(3) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**4**) Gweler adran 1 o Ddeddf 1997 ar gyfer diffiniad o “pilot scheme”.
(**5**) 1997 p.46.
(**6**) O.S. 2000/662
(**7**) Gweler adrannau 18(3) a 20(7) o Ddeddf 1999 ar gyfer y diffiniad o “health care”.

# RHAN II

## RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL

**Rhaglen waith flynyddol**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) , rhaid i'r Comisiwn, cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, baratoi rhaglen waith yn nodi'r gweithgareddau y mae'r Comisiwn i ymgymryd â hwy yn y flwyddyn honno wrth arfer ei swyddogaethau.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi 1 Ebrill 2000 rhaid i'r Comisiwn baratoi rhaglen waith mewn perthynas â gweddill y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar y dyddiad hwnnw a dehonglir cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at "blwyddyn" a "rhaglen waith" yn unol â hynny.

(3) Rhaid i bob rhaglen waith, mewn perthynas a'r flwyddyn honno, nodi —

(a) unrhyw faterion penodol y mae'r Comisiwn i ddarparu cyngor neu wybodaeth ar drefniadau llywodraethu clinigol ynglŷn â hwy;

(b) cynigion o ran y cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae'r Comisiwn i gynnal adolygiadau lleol ynglŷn â hwy;

(c) unrhyw faterion penodol y mae'r Comisiwn i'w hystyried neu i'w cymryd i ystyriaeth wrth gynnal adolygiad lleol neu adolygiad gwasanaeth gwladol; ac

(ch) y mathau penodol o ofal iechyd sydd i fod yn destun unrhyw adolygiadau gwasanaeth gwladol ac adroddiadau o dan adran 20(1)(d) o'r Ddeddf.

(4) Bydd y rhaglen waith yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Gellir amrywio'r rhaglen waith —

(a) gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(b) fel y gall y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu.

(6) Yn ddarostyngedig i'r rheoliadau canlynol ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol yn unol â'r rhaglen waith ynglŷn â'r flwyddyn honno.

# RHAN III

## CYNGOR NEU WYBODAETH AM DREFNIADAU LLYWODRAETHU CLINIGOL

**Personau y gellir rhoi cyngor neu wybodaeth iddynt**

**3.**—(1) Bydd y Comisiwn yn darparu cyngor neu wybodaeth am drefniadau llywodraethu clinigol i —

(a) y Cynulliad Cenedlaethol;

(b) cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; a

(c) darparwyr gwasanaethau.

(2) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gais gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu cyngor neu wybodaeth am agweddau penodol ar drefniadau llywodraethu clinigol —

(a) i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) i gyrff penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; ac

(c) i ddarparwyr gwasanaethau penodol.

(3) Caiff y Comisiwn ddarparu cyngor neu wybodaeth am drefniadau llywodraethu clinigol i unrhyw berson arall neu gorff arall sy'n gwneud cais am gyngor neu wybodaeth o'r fath.

**Arfer swyddogaeth darparu cyngor neu wybodaeth am drefniadau llywodraethu clinigol**

**4.** Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 20(1)(a) o'r Ddeddf a rheoliad 2(a) a (b) o'r Rheoliadau Swyddogaethau rhaid i'r Comisiwn gymryd i ystyriaeth —

(a) unrhyw ganllawiau ynglŷn â threfniadau llywodraethu clinigol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol;

(b) unrhyw gyngor neu ganllawiau ynglŷn â threfniadau llywodraethu clinigol a roddir gan unrhyw gorff sy'n gyfrifol am reoli proffesiwn gofal iechyd.

# RHAN IV

## ADOLYGIADAU LLEOL

**Effeithiolrwydd a digonolrwydd y trefniadau**

**5.** Wrth gynnal adolygiad lleol rhaid i'r Comisiwn asesu effeithiolrwydd trefniadau'r corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan sylw ac ystyried a yw'r trefniadau hynny'n ddigonol.

**Adroddiadau ar adolygiadau lleol**

**6.**—(1) Ar ôl i adolygiad lleol ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad i'r corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn nodi —

(a) canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiwn; a

(b) unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiwn.

(2) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynodeb o unrhyw adroddiad o'r fath.

**Adroddiadau o ddiddordeb arbennig**

**7.**—(1) Os daw mater i sylw'r Comisiwn yng nghwrs adolygiad lleol y mae'n credu y dylid, er lles y cyhoedd, dod ag ef i sylw —

(a) unrhyw un o'r personau neu'r cyrff y mae paragraff (2) yn gymwys iddynt; a

(b) y cyhoedd,

caiff y Comisiwn wneud y mater yn destun adroddiad ar unwaith yn ychwanegol at yr adroddiad sydd i'w wneud ar ddiwedd yr adolygiad.

(2) Dyma'r personau a'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) —

(a) y corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n destun yr adolygiad lleol;

(b) y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid anfon copïau o unrhyw adroddiad o dan baragraff (1) at y canlynol —

(a) y corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n destun yr adolygiad lleol;

(b) y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) unrhyw gorff y gwasanaeth iechyd gwladol neu ddarparydd gwasanaethau neu unrhyw berson neu gorff arall sy'n arfer swyddogaethau statudol, y mae'r Comisiwn yn credu y dylid anfon copi o'r adroddiad atynt.

(4) Yn ychwanegol at anfon copïau o'r adroddiad at y personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3), rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynodeb o'r adroddiad.

**Camau pellach yn dilyn adolygiad lleol**

**8.**—(1) Pan ddaw adolygiad lleol i ben, rhaid i'r corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan sylw, gyda chymorth y Comisiwn, baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad a wnaed gan y Comisiwn.

(2) Bydd datganiad a baratoir o dan baragraff (1) yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Cyn penderfynu a gymeradwyir datganiad a baratoir o dan baragraff (1) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â'r Comisiwn.

# RHAN V

## ADOLYGIADAU GWASANAETH GWLADOL

**Adroddiadau ar adolygiadau gwasanaeth gwladol**

**9.**—(1) Pan ddaw adolygiad gwasanaeth gwladol i ben rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i adroddiad o dan baragraff (1) gynnwys canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiwn.

(1) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynodeb o unrhyw adroddiad o'r fath.

# RHAN V

## YMCHWILIADAU

**Ymchwiliadau**

**10.**—(1) Rhaid i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad pan wneir cais iddo wneud hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Caiff y Comisiwn gynnal ymchwiliad —

(a) pan gaiff y Comisiwn gais i ymchwilio gan unrhyw berson neu gorff; neu

(b) pan yw fel arall yn ymddangos i'r Comisiwn ei bod yn briodol gwneud hynny.

(3) Pan yw'r Comisiwn yn cynnal ymchwiliad ar gais y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid iddo ymchwilio i'r materion hynny sy'n dod o dan adran 20(1) (c) o'r Ddeddf neu reoliad 2(e) o'r Rheoliadau Swyddogaethau a gaiff eu pennu yn y cais.

(4) Pan yw'r Comisiwn yn cynnal ymchwiliad mewn unrhyw achos arall, caiff ymchwilio i'r materion hynny sy'n dod o dan adran 20(1)(c) o'r Ddeddf neu reoliad 2(e) o'r Rheoliadau Swyddogaethau fel y gwêl yn dda.

**Hysbysiad o'r ymchwiliad**

**11.** Pan yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, rhaid i'r Comisiwn roi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i gynnal ymchwiliad a'r dyddiad y bwriedir i'r ymchwiliad hwnnw ddechrau —

(a) i unrhyw gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu ddarparydd gwasanaethau sydd yn destun ymchwiliad;

(b) yn achos ymchwiliad o dan reoliad 10(2) ynglŷn ag Awdurdod Iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, i'r Cynulliad Cenedlaethol; ac

(c) yn achos ymchwiliad ynglŷn â darparydd gwasanaethau, i'r Awdurdod Iechyd perthnasol.

**Cynnal ymchwiliad i gorff sy'n destun adolygiad lleol**

**12.**—(1) Os daw mater i sylw'r Comisiwn yng nghwrs adolygiad lleol y mae'n credu y dylai yn briodol fod yn destun ymchwiliad, caiff y Comisiwn ddechrau ymchwiliad i'r mater hwnnw.

(2) Os bydd y Comisiwn yn penderfynu dechrau ymchwiliad rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig, lle mae hynny'n rhesymol ymarferol, o'i benderfyniad a'r dyddiad y bwriedir i'r ymchwiliad ddechrau —

(a) i'r corff sy'n destun yr adolygiad lleol; a

(b) mewn achos lle mae'r corff sy'n destun adolygiad lleol yn Awdurdod Iechyd, yn Awdurdod Iechyd Arbennig neu'n Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Pan yw'r Comisiwn yn dechrau ymchwiliad o'r fath, caiff y Comisiwn atal neu barhau â'r adolygiad lleol ac, os yw'r adolygiad lleol wedi'i atal, ailddechrau'r adolygiad ar unrhyw adeg.

**Adroddiadau ar ymchwiliadau**

**13.**—(1) Ar ôl i ymchwiliad y gwnaed cais amdano gan y Cynulliad Cenedlaethol ddod i ben rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ac anfon copi o'r adroddiad —

(a) at unrhyw berson neu gorff a fu'n destun yr ymchwiliad; a

(b) yn achos ymchwiliad ynglŷn â darparydd gwasanaethau at yr Awdurdod Iechyd perthnasol.

(2) Ar ôl ymchwiliad y gwnaed cais amdano gan unrhyw berson neu gorff arall ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad i'r person neu'r corff hwnnw ac anfon copi o'r adroddiad —

(a) at unrhyw berson neu gorff a fu'n destun yr ymchwiliad;

(b) at y Cynulliad Cenedlaethol; ac

(c) yn achos ymchwiliad ynglŷn â darparydd gwasanaethau, at yr Awdurdod Iechyd perthnasol.

(3) Ar ôl i ymchwiliad ddod i ben mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad i'r person neu'r corff a fu'n destun yr ymchwiliad ac yn anfon copi o'r adroddiad —

(a) at y Cynulliad Cenedlaethol; a

(b) yn achos ymchwiliad ynglŷn â darparydd gwasanaethau, at yr Awdurdod Iechyd perthnasol

(4) Rhaid i adroddiad a wneir o dan baragraffau (1), (2) neu (3) nodi —

(a) canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiwn;

(b) unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiwn.

(5) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynododeb o unrhyw adroddiad o'r fath.

**Adroddiadau o ddiddordeb arbennig**

**14.**—(1) Os daw mater i sylw'r Comisiwn yng nghwrs ymchwiliad y mae'n credu y dylid, er lles y cyhoedd, dod ag ef i sylw —

(a) unrhyw un o'r personau neu'r cyrff y mae paragraff (2) yn gymwys iddynt; a

(b) y cyhoedd,

caiff y Comisiwn wneud y mater yn destun adroddiad ar unwaith yn ychwanegol at yr adroddiad a wneir ar ddiwedd yr ymchwiliad.

(2) Dyma'r personau a'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)

(a) unrhyw gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu ddarparydd gwasanaethau sy'n destun yr ymchwiliad;

(b) y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) mewn achos lle mae darparydd gwasanaethau yn destun ymchwiliad, yr Awdurdod Iechyd Perthnasol.

(3) Rhaid anfon copïau o unrhyw adroddiad o dan baragraff (1) at y canlynol—

(a) unrhyw gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu darparydd gwasanaethau sy'n destun yr ymchwiliad;

(b) y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) mewn achos y mae paragraff (2)(c) yn gymwys iddo ef, yr Awdurdod Iechyd perthnasol;

(ch) unrhyw gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol arall neu ddarparydd gwasanaethau neu berson arall neu gorff arall sy'n arfer swyddogaethau statudol, y mae'r Comisiwn yn credu y dylid anfon copi o'r adroddiad atynt.

(4) Yn ychwanegol at anfon copïau o'r adroddiad at y personau y cyfeirir atynt ym mhagraff (3), rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynodeb o'r adroddiad.

**Camau pellach yn dilyn ymchwiliad**

**15.**—(1) Pan ddaw ymchwiliad i ben, rhaid i unrhyw gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan sylw, gyda chymorth y Comisiwn, baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad a wnaed gan y Comisiwn.

(2) Bydd datganiad a baratoir o dan baragraff (1) yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Cyn penderfynu a gymeradwyir datganiad a baratoir o dan baragraff (1) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â'r Comisiwn.

# RHAN VII

## HAWLIAU MYNEDIAD A CHAEL GAFAEL AR WYBODAETH

**Hawliau mynediad**

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol yn y rheoliad hwn, caiff personau a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y Comisiwn ar unrhyw adeg resymol fynd ac archwilio tir ac adeiladau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol(**8**) er mwyn cynnal adolygiadau lleol, adolygiadau gwasanaeth gwladol neu ymchwiliadau.

(2) Rhaid rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i bob person a awdurdodir gan y Comisiwn o dan baragraff (1) o awdurdod y person hwnnw ac wrth wneud cais i gael mynediad i dir ac adeiladau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol at y dibenion a bennir ym mharagraff (1), rhaid iddynt ddangos y dystiolaeth honno os gofynnir iddynt gan feddiannydd y tir a'r adeiladau neu gan berson sy'n gweithredu ar ran y meddiannydd.

(**8**) Gweler adran 23(6) o Ddeddf 1999 ar gyfer y diffiniad o “National Health Service” premises.

(3) Rhaid i berson a awdurdodir gan y Comisiwn o dan baragraff (1) beidio â hawlio mynediad i dir ac adeiladau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel hawl oni fydd y corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n berchen ar y tir a'r adeiladau neu'n eu rheoli wedi cael hysbysiad rhesymol o'r mynediad a fwriedir.

(4) Ni chaiff neb a awdurdodir gan y Comisiwn o dan baragraff (1) fynd i unrhyw dir neu adeiladau neu ran o dir ac adeiladau a ddefnyddir fel llety preswyl ar gyfer personau a gyflogir gan unrhyw gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, heb yn gyntaf gael cydsyniad y swyddogion sy'n preswylio yn y llety hwnnw.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 19, caiff person a awdurdodwyd gan y Comisiwn o dan baragraff (1) sy'n mynd i dir ac adeiladau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan y rheoliad hwn archwilio a chymryd copïau o unrhyw ddogfennau —

(a) y mae'n ymddangos i'r person a awdurdodwyd eu bod yn angenrheidiol at ddibenion yr adolygiad neu'r ymchwiliad o dan sylw; a

(b) sy'n cael eu cadw ar y tir neu yn yr adeiladau gan —

(i) y corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n berchen ar y tir neu'r adeiladau neu sy'n eu rheoli;

(ii) cadeirydd, aelod, cyfarwyddydd neu gyflogai'r corff hwnnw;

(iii) unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y corff hwnnw; neu

(iv) aelod o bwyllgor neu is—bwyllgor o'r corff hwnnw.

**Cael gafael ar wybodaeth ac esboniadau**

**17.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 19, wrth gynnal adolygiad lleol neu ymchwiliad gall y Comisiwn neu berson a awdurdodir gan y Comisiwn o dan reoliad 16(1) ei gwneud yn ofynnol i berson y mae paragraff (5) yn gymwys iddo ddangos unrhyw ddogfennau neu wybodaeth y mae'n ymddangos i'r Comisiwn, neu i'r person a awdurdodwyd, eu bod yn angenrheidiol at ddibenion yr adolygiad neu'r ymchwiliad o dan sylw.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 19, wrth gynnal adolygiad lleol neu ymchwiliad, gall y Comisiwn neu berson a awdurdodir gan y Comisiwn, os yw'r Comisiwn neu'r person hwnnw yn credu ei bod yn angenrheidiol, ei gwneud yn ofynnol i berson y mae paragraff (5) yn gymwys iddo roi i'r Comisiwn, neu fel y bo'r digwydd, y person a awdurdodwyd, esboniad am y canlynol —

(a) unrhyw faterion sy'n destun yr adolygiad neu'r ymchwiliad; neu

(b) unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a gafodd eu harchwilio, eu copïo neu eu dangos o dan baragraff (1) neu reoliad 16(5).

(3) Caiff y Comisiwn, os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol, ei gwneud yn ofynnol i berson y mae'n ofynnol iddo —

(a) dangos dogfennau neu wybodaeth o dan baragraff (1); neu

(b) rhoi esboniad o dan baragraff (2),

fod yn bresennol gerbron y Comisiwn neu berson a awdurdodir gan y Comisiwn o dan reoliad 16(1) yn bersonol i ddangos y dogfennau neu'r wybodaeth neu i roi'r esboniad.

(4) Ni chaiff y Comisiwn neu berson a awdurdodir o dan reoliad 16(1) ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol yn bersonol yn unol â pharagraff (3) oni roddwyd hysbysiad rhesymol o'r dyddiad y bwriedir iddo fod yn bresennol i'r person hwnnw.

(5) Dyma'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) —

(a) corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

(b) cadeirydd, aelod, cyfarwyddydd neu gyflogai i gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran corff o'r fath;

(c) aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o gorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

(ch) darparydd gwasanaethau;

(d) cyflogai i ddarparydd gwasanaethau, neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran darparydd o'r fath;

(dd) person sy'n darparu neu'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau, neu sydd yn aelod o neu'n gyflogai i berson neu gorff sy'n darparu neu'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o dan Ddeddf 1977, neu mewn cysylltiad â chynllun peilot o dan Ddeddf 1997, yn unol â chontract a wnaed gyda chorff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, darparydd gwasanaethau neu berson y mae is-baragraff (e) yn gymwys iddo;

(e) awdurdod lleol sy'n darparu, neu berson a gyflogir gan awdurdod lleol i ddarparu, gwasanaethau o dan Ddeddf 1997, neu mewn cysylltiad â chynllun peilot o dan Ddeddf 1997, yn unol â threfniadau a wnaed yn rhinwedd adran 31(1) o'r Ddeddf.

### Gwybodaeth a gedwir drwy gyfrwng cyfrifiadur neu mewn unrhyw ffurf electronig arall

**18.**—(1) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 16 a 17, mae unrhyw gyfeiriad at ddogfennau yn cynnwys cyfeiriad at wybodaeth a gedwir drwy gyfrwng cyfrifiadur neu mewn unrhyw ffurf electronig arall.

(2) Pan yw'r Comisiwn neu berson a awdurdodwyd o dan reoliad 16(1) yn arfer —

(a) yr hawl o dan reoliad 16(5) i archwilio a chymryd copïau o ddogfennau; neu

(b) yr hawl o dan reoliad 17(1) i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddangos dogfennau;

a bod y dogfennau hynny yn cynnwys gwybodaeth a gedwir drwy gyfrwng cyfrifiadur neu mewn unrhyw ffurf electronig arall, gall y Comisiwn neu'r person a awdurdodwyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal, neu sydd fel arall yn ymwneud â gweithredu'r cyfrifiadur neu'r ddyfais electronig arall sy'n cadw'r wybodaeth honno drefnu bod yr wybodaeth honno ar gael, neu ddangos yr wybodaeth mewn ffurf weladwy a darllenadwy.

### Cyfyngiadau ar ddadlennu gwybodaeth i'r Comisiwn

**19.**—(1) Rhaid i'r Comisiwn neu'r person a awdurdodwyd o dan reoliad 16(1) beidio ag archwilio na chymryd copïau o ddogfennau o dan reoliad 16(5) i'r graddau —

(a) y mae'r dogfennau hynny yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol(**9**) sy'n berthnasol i unigolyn byw ac yn dynodi pwy ydyw, oni bai bod un neu fwy o'r amodau a bennir ym mharagraff (3) yn gymwys; neu

(b) bod archwilio neu gopïo'r dogfennau hynny yn golygu datgelu gwybodaeth os gwaharddwyd y datgelu hwnnw gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad, onid yw paragraff (4) yn gymwys.

(2) Ni fydd yn ofynnol i berson ddangos dogfennau neu wybodaeth o dan reoliad 17(1) na rhoi esboniad o dan reoliad 17(2) i'r graddau y mae dangos y dogfennau hynny neu'r wybodaeth honno neu roi'r esboniad hwnnw yn datgelu gwybodaeth —

(a) sy'n gyfrinachol ac sy'n berthnasol i unigolyn byw ac yn dynodi pwy ydyw, oni bai bod un neu fwy o'r amodau a bennir ym mharagraff (3) yn gymwys; neu

(b) y gwaharddwyd y datgelu gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad, onid yw paragraff (4) yn gymwys.

(3) Dyma'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1)(a) a (2)(a) —

(a) y datgelir yr wybodaeth mewn ffurf lle na ellir adnabod yr unigolyn drwyddi;

(**9**) Gweler adran 23(6) o Ddeddf 1999 ar gyfer y diffiniad o "confidential information".

(b) bod yr unigolyn yn cydsynio i ddatgelu'r wybodaeth;

(c) na ellir olrhain yr unigolyn er cymryd pob cam rhesymol;

(ch) mewn achos lle mae'r Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau o dan adran 20(1)(c) o'r Ddeddf —

(i) nad yw'n ymarferol i ddatgelu'r wybodaeth mewn ffurf na ellir adnabod yr unigolyn drwyddi;

(ii) bod y Comisiwn o'r farn bod risg difrifol i iechyd neu ddiogelwch cleifion yn codi o'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;a

(iii) gan ystyried y risg honno a'r brys wrth arfer y swyddogaethau hynny, bod y Comisiwn o'r farn y dylid datgelu'r wybodaeth heb gydsyniad yr unigolyn.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan yw'r gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth yn gweithredu o achos y ffaith bod yr wybodaeth yn gallu dynodi pwy yw unigolyn; a

(b) pan yw'r wybodaeth o dan sylw mewn ffurf na ellir adnabod yr unigolyn drwyddi.

(5) Mewn achos lle gwaherddir datgelu'r wybodaeth —

(a) gan baragraff (1); neu

(b) gan baragraff (2) a bod y gwaharddiad yn gweithredu o achos y ffaith bod yr wybodaeth yn gallu dynodi pwy yw unigolyn,

gall y Comisiwn neu berson a awdurdodwyd gan y Comisiwn o dan reoliad 16(1) ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n cadw'r wybodaeth roi'r wybodaeth mewn ffurf na ellir adnabod pwy yw'r unigolyn o dan sylw drwyddi, er mwyn i'r wybodaeth gael ei datgelu.

# RHAN VIII

## AMRYWIOL

### Cynorthwyo'r Comisiwn Archwilio

**20.** Rhaid i'r Comisiwn beidio â chynorthwyo'r Comisiwn Archwilio o dan adran 21(2) o'r Ddeddf heb gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

### Arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ymholiadau gwasanaeth iechyd

**21.**—(1) Rhaid i'r Comisiwn beidio ag arfer ei swyddogaeth o dan reoliad 2(f) o'r Rheoliadau Swyddogaethau mewn perthynas ag ymchwiliad gwasanaeth iechyd penodol neu ymchwiliad gwasanaeth iechyd arfaethedig heb gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan reoliad 2(f) o'r Rheoliadau Swyddogaethau rhaid i'r Comisiwn gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor neu ganllawiau ynglŷn ag ymchwiliadau gwasanaeth iechyd a roddir i gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**). 30 Mawrth 2000

*D. Elis Thomas*
Llywydd y CynulliadCenedlaethol

(**10**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag arfer yng Nghymru swyddogaethau'r Comisiwn Gwella Iechyd a sefydlir o dan adran 19 o Ddeddf Iechyd 1999.

Rhoddir ei swyddogaethau craidd i'r Comisiwn gan adran 20 o Ddeddf Iechyd 1999 sy'n darparu bod y Comisiwn —

- yn darparu cyngor a gwybodaeth am drefniadau ar gyfer monitro a gwella'r gofal iechyd a ddarperir gan Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol (lle sefydlir hwy), gan gynnwys trefniadau llywodraethu clinigol;
- yn cynnal adolygiadau ar weithrediad a digonolrwydd y trefniadau hynny;
- yn ymchwilio, cynghori ac adrodd ar faterion penodol ynglŷn a chyflwyno a rheoli'r gofal iechyd a ddarperir gan gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- yn cynnal adolygiadau cenedlaethol ar fathau penodol o ofal iechyd a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae Adran 20(1)(e) o Ddeddf Iechyd 1999 yn darparu i swyddogaethau ychwanegol gael eu rhoi drwy gyfrwng rheoliadau. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o'r fath yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac mae wedi'i arfer drwy ychwanegu'r swyddogaethau ychwanegol canlynol fel y'u nodir yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) 2000 sy'n darllen fel a ganlyn —

"**2.** The following functions are prescribed pursuant to section 20(1)(e) —

(a) the function of providing advice or information with respect to the arrangements by Health Authorities, Special Health Authorities or service providers for the purpose of monitoring and improving the quality of health care for which they have responsibility;

(b) the function of providing advice or information with respect to the arrangements by Primary Care Trusts for the purpose of monitoring and improving the quality of health care provided by their relevant service providers;

(c) the function of conducting reviews of, and making reports on, arrangements by Health Authorities, or Special Health Authorities to which the duty in section 18 of the Act has been extended(**11**), for the purpose of monitoring and improving the quality of health care for which they have responsibility;

(d) the function of conducting reviews of, and making reports on, arrangements by Primary Care Trusts for the purpose of monitoring and improving the quality of health care provided by their relevant service providers;

(e) the function of carrying out investigations into, and making reports on, the management, provision or quality of health care for which Special Health Authorities have responsibility;

(f) the function of providing advice with respect to the establishment and conduct of health service inquiries."

(**11**) Gweler adran 18(3) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999").

Ceir croesgyfeiriadau at reoliad 2 yn Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2000.

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer paratoi rhaglen waith flynyddol y Comisiwn (rheoliad 2), i'r Comisiwn ddarparu cyngor neu wybodaeth ynglŷn a threfniadau llywodraethu clinigol i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyrff y gwasanaeth iechyd ac eraill (rheoliadau 3 a 4), cynnal adolygiadau lleol ar y trefniadau hynny, a'r adroddiadau a'r camau sydd i'w cymryd yn sgil yr adolygiadau hynny (rheoliadau 5 i 8), adroddiadau yn dilyn adolygiadau gwasanaeth cenedlaethol o fathau penodol o ofal iechyd (rheoliad 9) a chynnal ymchwiliadau i reolaeth, darpariaeth neu ansawdd y gofal iechyd y mae cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gyfrifol amdanynt a'r adroddiadau ynglŷn â'r ymchwiliadau hynny (rheoliadau 10 i 15).

Mae Rheoliadau 16 i 19 yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn a phersonau a awdurdodir ganddo fynd ar dir ac adeiladau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gael gafael ar ddogfennau, gwybodaeth ac esboniadau.

Mae Rheoliad 20 yn atal y Comisiwn rhag rhoi cymorth i'r Comisiwn Archwilio wrth arfer rhai o'i swyddogaethau, heb gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Rheoliad 21 yn gwneud darpariaeth ynglŷn a rôl y Comisiwn wrth roi cymorth mewn perthynas ag ymchwiliadau'r gwasanaeth iechyd.